# Un dau tri, i ffwrdd â ni!

Mae gemau disgwyl yn ffordd wych o ryngweithio â'ch plentyn ac yn cynnig ffordd hwyliog a chadarnhaol o ymgysylltu â'ch plentyn. Maen nhw hefyd yn helpu eich plentyn i sylweddoli y gall eu gweithredoedd gael effaith arnoch chi, gan eu hannog i ddechrau gofyn.

Unwaith i chi ddechrau chwarae'r gemau hyn bydd eich plentyn wrth ei fodd â'r ailadrodd, ac yn gofyn am eu chwarae'n rheolaidd.

### Beth ddylwn i ei wneud?

- Helpwch y plentyn drwy oedi yn ystod **trefnau cyfarwydd** fel y gall y plentyn ddangos i chi ei fod yn gwybod beth sydd nesaf.
- Gwnewch eich hun yn rhan o'r broses a **chaniatáu amser** ar gyfer y disgwyliad.
- Arweiniwch ac yna **oedi/aros** i'r plentyn ymateb.
- Rhowch ddigon o amser i'ch plentyn ymateb a gadewch fylchau yn eich siarad fel y gall




### Cofiwch...

- Trefnau dyddiol.
- Hwiangerddi.
- Chwaraewch gemau pobl fel, **'pip-po!'** neu **cuddio**.
- Canwch rigymau symud gyda'ch gilydd, fel, "**Mi welais Jac y do, yn eistedd ar y to"**, a "**Mynd ar y ceffyl clipidi-clop"**.

**Am syniadau pellach edrychwch ar y fideos**

SCAN ME

Gemau Un, Dau, I ffwrdd â ni!

www.llyw.cymru/siarad-

### Sut?

**Adeiladwch gyffro drwy ddweud 'Un…Dau…' a gadewch fwlch iddyn nhw ymateb cyn dweud 'I FFWRDD Â NI'**

### Eu roi ar waith

- Cynhwyswch eich plentyn mewn trefnau cyfarwydd, yr un pethau rydych chi'n eu gwneud bob dydd. Ceisiwch **ychwanegu cân** i rai o'r gweithgareddau hyn, bydd eich plentyn yn mwynhau'r ailadrodd a bydd yn dysgu beth sy'n dod nesaf.
- **Gemau - Un, Dau, Ffwrdd â ni!** – maen nhw'n annog eich plentyn i eistedd ac aros am I FFWRDD Â NI!
  **Adeilau blociau, car rholio, swigod.**
- Caneuon gweithrediadau a straeon – oedwch cyn diwedd y frawddeg ac aros

### Symud ymlaen…

Pan fyddwch chi'n teimlo eich bod chi'n hyderus gyda'r strategaeth hon, nesaf, ceisiwch gyflwyno rhai **Gwrthrychau cyfeirio.** Efallai llwy i gynrychioli amser cinio neu allwedd i gynrychioli amser mynd adref. Maen nhw'n arwydd o beth sy'n mynd i ddigwydd.